

ECEY6005/C

Jessica Iles

2307137



Adennill Paradwys? Cynaliadwyedd yn y Blynyddoedd Cynnar

Y Goedlan ac Ardaloedd Allanol
mewn Ysgol Gynradd

Darganfod




Ardal allanol ysgol gynradd.

Mae'r ardaloedd allanol mae plentyn yr ysgol yn gallu archwilio yn achosi chwilfrydedd tuag at eu dysgu. Maent yn mynychu diwrnod dysgu yn yr awyr agored pob pythefnos ym mhob tywydd. Bydd pob dosbarth yn treulio diwrnod cyfan yn yr ardaloedd allanol, o blant bach y feithrin hyd at blant hynaf yr ysgol ym mlwyddyn chwech.

Rydym yn lwcus yn ein hysgol ni gyda'r ardaloedd allanol sydd i gynnig i'r plant. Mae coedlan yng nghefn yr ysgol, man chwarae a gwair a lle agored ar flaen yr ysgol.

Rwyf wedi dewis yr ardal yma am fod yn cynnig gymaint o brofiadau i unrhyw un sydd yn archwilio'r ardaloedd. Mae'n annog chwilfrydedd writh symud o amgylch yr ardaloedd. Mae'r ardaloedd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau mewn ffordd dyls a chyfannol. Yn ogystal a datblygu sgiliau academiaidd y plant, mae defnyddio'r ardaloedd yn hybu cydweithio rhwng disgyblion. Mae'r awyr agored a natur yn helpu lles y plant. Nid yw pob plentyn yn dysgu yn yr un ffordd, mae rhai yn dysgu well yn ymarferol ac mae'r ardaloedd yn cynnig cyfleoedd iddyn nhw arbrofi ac archwilio'r ardal i ddatblygu eu dysgu.

Darganfod



Archwilio

pretty

broga

cosy

aderyn

**Beth ydych chi'n hoffi
am y goedlan?**

Atebion gan blant o'r feithrin i
flwyddyn 2.

muddy

bugs


mawr

coed

Archwilio

Gwaith celf wedi sbarduno gan y goedlan.

Wedi creu gan blant o flynyddoedd 3 i 6.



Archwilio

Hoff ardaloedd y plant i archwilio



Cylch Tan

- Mae'r cylch 'tan' yn lle ganolog i bawb
- Yn aml rydym yn siarad am yr hyn rydym wedi darganfod wrth archwilio yr ardal.
- Mae pawb yn dechrau yn yr ardal yma a thrafod yr hyn sydd rhaid i ni gofio wrth archwilio'r goedlan. Cofio rheolau'r goedlan.
- Gyda phlant hynaf yr ysgol, mae staff sydd wedi hyfforddi gydag ysgolion y goedwig yn gallu cynnu tan go iawn. Profiadau hwyl i blant gan sicrhau manet yn deall pwysigrwydd bod yn ddiogel wrth wneud.

'I like having llaeth by here.'
-plentyn meithrin

'Dyma ble ni eistedd before mynd i chwilio am stuff yn y goedlan.'
-plentyn bl. 1

'We sit here and canu with Miss Iles. It's my favourite.'
-plentyn derbyn

Archwilio

Hoff ardaloedd y plant i archwilio



Lefydd i archwilio

- Mae amrywiaeth o lefydd i archwilio yn y goedlan.
- Mae adnoddau gawhanol wedi gosod yn y goedlan i'r plant archwilio'r ardal; teiars mawr a mawr, pelenni mawr, defnydd fel tarpolin.
- Mae'r plant yn mynd ati i ymchwilio'n annibynnol o fewn yr ardaloedd.
- Yn aml mae staff yn rhoi sbardun i'r plant, er enghraifft trychfilod, yna maent yn mynd ati i ddarganfod. Dyma ble mae staff yn gallu gweld y gwybodaeth sydd gan ddisgyblion yn barod ac yna defnyddio cwestiynu i herio ar ey dysgu.

'Sometimes I walk on there. But I have to be careful I don't want to cwmpo.'

-plentyn meithrin

'That's the best cuddio place ever when we play cuddio. They never find me'


-plentyn derbyn

'Fi'n eistedd yn y tyre a edrych for adar.'

-plentyn bl. 1

Gwarchod

Wrth archwilio'r goedlan, sylwodd nifer o blant yr holl drychfilod oedd yn symud o amgylch yr ardaloedd gawhanol. Penderfynnon nhw i fynd ar helfa trychfilod i weld pa rai oedd yn cuddio yn goedlan. 'Rydyn ni angen magnifying glasses Miss Iles' gwaeddodd ambell plentyn cyn cychwyn yr helfa. Gofynnodd un plentyn am ipad er mwyn tynnu lluniau o'r trychfilod gwelodd wrth archwilio'r ardaloedd gwahanol.



Gwarchod

Yna penderfynon ni roedd y trychfilod eisiau rhywle saff i fynd ac ymlacio 'fel nhw mynd ar holidays'. Felly aethom ni ati i ymchwilio mewn i westy trychfilod a sut gallen ni greu un i osod yn y goedlan.



gwesti i bugs



gwesty trychfilod



PIC•COLLAGE



PIC•COLLAGE



PIC•COLLAGE

Gwarchod

Pam westy trychfilod?

Trwy greu a gosod 'gwety trychfilod' o fewn ardaloedd maent yn gallu lle ddiogel i'r trychfilod i fynd er mwyn creu nyth, dodwy wyau a magu trychfilod bach yn enwedig yn ystod tywydd gwahanol. Mae'r gwesty yn cynnig lloches yn ystod amser gaeafgysgu neu drwy'r haf pan mae'r tywydd yn rhy boeth i drychfilod.

Yn aml mae'r trychfilod sydd yn cael eu denu i'r gwesty trychfilod yw anifeiliaid fel pili palod a gwenyn. Dyma'r drychfilod sydd yn gweithio fel peillwyr. Trwy gael lle diogel i'r trychfilod yma ymgasglu maent yn eu tro yn cyfrannu at flodau a phlanhigion yr ardal o amgylch.

Fel arfer mae'r gwesty trychfilod wedi creu allan o adnoddau a deunyddiau gallwn ailgylchu. Trwy ddefnyddio'r adnoddau yma, rydym yn gallu cyfrannu at gynnaladwyedd a lleihau gwastraff yn ein sefydliad.



Rhannu

Sesiynau Datblygiad Staff HT 6

W1	W2	W3	W4	W5	W6
Dan Davies (Dydd Mawrth)	Lanlwytho enghraifftiau i'r pwerbwyntiau rhwydweithiau clwstwr	Noson Agored	Rhwydwaith Clwstwr	'Speed Dating' Senarios Diogelu/Check in Dan Davies	Jess – rhannu gwobr John Muir Trafodaethau Cynnydd
Hwyr nos gyda Sarah Edmunds					

To: T Rainsbury (Ysgol Penalltau) X E Owen (Ysgol Penalltau) X Bcc

Cc: L Rees (Ysgol Penalltau) X R Poole (Ysgol Penalltau) X N Jones-Pritchard (Ysgol Penalltau) X N Jenkins (Ysgol Penalltau) X +6 others

Gwobr John Muir

Bore da,

Diolch am wrando ar fy nghyflwyniad yn esbonio'r gwaith wnes i wrth geisio cwblhau gwobr John Muir. Mi fydd ceisio gwneud yr hyn a nodwyd yn y gwobr gyda'r plant yn defnyddiol a phwrsol iawn. Mae'r gwobr yn ateb nifer o ofynion y cwricwlwm trwy hybu plant i fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd.

Fel dywedodd neithiwr yn ystod y sesiwn datblygiad staff, rwyf wedi atodi y powerpoint rhannais gyda chi.

Oes os gennych unrhyw cwestiynau pellach, jyst anfonwch neges ataf.

Diolch,
Jess

Cefais y cyfle i rannu'r hyn a dysgais wrth archwilio gyda gweddill staff fy ysgol.

Roeddent yn awyddus i glywed mwy ac aeth athrawon y dosbarth derbyn a blwyddyn 1 ati i ymchwilio yn bellach. Maent wedi penderfynu i roi amser yn y flwyddyn academaidd newydd i ddefnyddio stratagaethau o wefan John Muir i gyflwyno cynladwyedd i blant eu dosbarthiadau.

Gwybodaeth am waith John Muir.



Cafodd John Muir ei eni yn yr Alban yn y flwyddyn 1838 cyn ymfudo i America gyda'i deulu pan oedd yn 11 mlwydd oed. Dyma ble daeth yn un o sylfaenwyr y 'conservations movement' a phenderfynu i ymroi ei fywyd i ddiogelu natur ar byd o'n cwmpas.

Sefydloedd un o'r praciau cenedlaethol cyntaf, Yosemite National Park, sydd wedi lleoli yng nhalaith California. Ymrwymodd mewn nifer o deithiau yn amrywio o'r mynyddoedd, goedwigoedd ac hyd yn oed rhewlifoedd. Mae wedi ysbrydoli nifer gyda'i waith ysgrifennedig ac angerdd tuag at y byd naturiol.

Nid oedd John Muir yn credu bod pobl yn gwneud digon ar gyfer y blaned a'i cadw'n ddiogel a hardd. Nid oedd gwerthfawrogi natur yn ddigon, credai dylai pobl fod yn warchodwyr ymarferol yn defnyddio dulliau ymarferol a chreadigol i gadw harddwch y byd a'i diogelu.

Gwybodaeth am waith John Muir.



Er bu farw John Muir dros 100 mlynedd yn ôl yn 1914, mae'r hyn a credai flynyddoedd yn ôl dal yn sefyll wrth ystyried gyflwr y byd heddiw. Credai rai bod diogleu a chadw'r blaned yn iach yn fwy wir nawr nag erioed, pobl fel Dr Jane Goodall, Sir David Attenborough a Greta Thunberg.

Erbyn hyn mae'r John Muir Trust wedi datblygu ac yn cael ei adnabod o gwmpas y byd am y gwaith poistif maent yn gwneud yn seiliedig ar gynaladwyedd a diogelu'r blaned. Cafodd ei sefydlu yn 1983 ac wedi dathlu yr holl waith positif maent wedi gwneud y fywyd gwyllt y DU am y 40 mlynedd diwethaf. Bwriad y John Muir Trust yw i gydweithio gyda chymunedau ledled y wlad i warchod, diogelu ac adfer ardaloedd gwyllt a naturiol fel bod pawb yn gallu eu mwynhau.

Gwybodaeth am waith John Muir.



Erbyn hyn mae nifer o elusennau wedi mabwysiadu credodau tebyg i'r John Muir Trust, elusennau fel Oxfam, Fair Trade, NSPCC, Eco-Schools i enwi ychydig. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi sylwi mae rhaid i agweddau ac ymddygiad pobl newid er mwyn diogleu dyfodol y blaned.

Cyflwyno cynladwyedd i blant bach yn y blynyddoedd cynnar er mwyn ceisio creu arferion da o'r cychwyn. Datblygu dealltwriaeth y plant ifanc o sut mae ymddygiad pobl yn effeithio ar y byd naturiol. Mae gan pob gweithred canlyniad, gallu hynny fod yn ganlyniad positif a negatif ar yr amgylchedd.

Y gobaith yw i newid agwedd a meddyliau pobl am sut gall pob un ohonyn ni diogelu'r plant.